

Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd

**Adolygiad o'r cynnydd
gyferbyn â Safonau
Gofal Iechyd Cymru –
1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth
2007**

Hydref 2007

Cynnwys

1.	Cyflwyniad a Chyd-destun	1
2.	Proses Asesu 2006-07	5
3.	Trosolwg ar Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd	9
4.	Canfyddiadau – gan gynnwys meysydd ar gyfer Gwella ac Arferion Da	
	▪ Profiad y claf.....	10
	▪ Canlyniadau Clinigol.....	24
	▪ Llywodraethu Gofal Iechyd	28
	▪ Iechyd y Cyhoedd.....	43
5.	Y Camau Nesaf.....	47
	Atodiadau	
	Atodiad 1: Diffiniadau o'r Lefelau Aeddfedrwydd	48
	Atodiad 2: Crynodeb o'r Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon.....	49
	Atodiad 3: Crynodeb o'r Aeddfedrwydd ar y Lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr	56
	Atodiad 4: Rhestr Termiau.....	58

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu hunanasesiad 2006-2007 gan Fwrdd Iechyd Lleol (BILI) Caerdydd, o berfformiad y BILI gyferbyn â *Safonau Gofal Iechyd Cymru*.

Y Safonau

1.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd Cymru* ym Mai 2005 a daeth y Safonau i rym ar 1 Mehefin 2005. Roedd y rhain yn pennu fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd i gefnogi ymdrechion y GIG a'r sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol a phrydlon o ansawdd uchel ar draws yr holl leoliadau gofal iechyd.

1.3. Mae'r Safonau Gofal Iechyd wedi eu cynllunio, yn gyntaf ac yn bennaf, er mwyn cyrraedd y lefelau uwch o ofal a thriniaeth y mae gan bobl Cymru yr hawl i'w disgwyl yn rhesymol, a thrwy hynny darparu sylfaen y gall cyrff gofal iechyd adeiladu arni, er mwyn bodloni'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal cleifion, a nodir yn strategaeth 10-mllynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mynnir bod pob sefydliad gofal iechyd¹ yng Nghymru yn ystyried y safonau wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, beth bynnag fo'r lleoliad.

1.4. Mae *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn rhestru 32 o safonau o fewn pedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn tarddu o werthoedd craidd a ddylai fod yn sail i'r gwaith o gomisiynu yn ogystal â chyflwyno gwasanaethau gofal iechyd, ac y mae pob safon o fewn y maes yn disgrifio'r gwerthoedd a gynrychiolir gan y maes hwnnw.

- Mae'r maes cyntaf '*Profiad y Cleifion*' yn pennu:

¹ Diffinnir sefydliadau gofal iechyd fel y cyrff GIG Cymru, contractwyr annibynnol a sefydliadau ac unigolion eraill, gan gynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd ar gyfer cleifion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd.

Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofawyr a'u perthnasau a'r cyhoedd yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dewisiadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd i'w defnyddio ac yn canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn amgylcheddau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dewisiadau'r cleifion. Byddant wedi'u llunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y cleifion.

- Mae'r ail faes 'Canlyniadau Clinigol' yn nodi y bydd:

Y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar yr hyn y mae tystiolaeth gwaith ymchwil a aseswyd yn briodol, yn canfod sydd ei angen er mwyn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan ystyried eu hanghenion a'u dewisiadau personol. Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fydd oedi afresymol yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses ddarparu na'u llwybr gofal.

- Mae'r trydydd maes, 'Llywodraethu Gofal Iechyd' yn egluro:

Bydd gan ddarparwyr a chomisiynwyr gofal iechyd systemau wedi'u sefydlu sy'n cefnogi arweiniad ac atebolrwydd staff clinigol a rheolwyr, ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dewisiadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd arferion gwaith wedi'u sefydlu i sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn rhan annatod o'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.

- Ynglŷn â'r pedwerydd maes 'Iechyd y Cyhoedd', dywedir:

Bydd cyrff gofal iechyd yn cydweithredu â chyrff perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod y rhaglenni a'r gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.

Sicrhau Cydymffurfiaeth

1.5. O Ebrill 2007 ymlaen, mynnir bod sefydliadau gofal iechyd y GIG yng Nghymru yn asesu eu hunain gyferbyn â'r safonau gofal iechyd ac yn cyhoeddi datganiad cyhoeddus blynyddol ar eu perfformiad.

1.6. Mae gofyn i'r sefydliadau gyflwyno'u datganiad a chanlyniadau eu hunanasesiad yn ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sy'n gyfrifol am gydgyssylltu'r gwaith o brofi a dilysu'r canlyniadau, gan ddefnyddio dadansoddiad ar sail risg gyferbyn ag amrediad o ffynonellau data. Yn yr adran sy'n dilyn, disgrifir y broses a fabwysiadwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu cyflwyniadau 2006-2007.

1.7. O Ebrill 2008 ymlaen, bydd cydymffurfiaeth â'r safonau gofal iechyd yn cael ei defnyddio hefyd i oleuo Datganiadau Rheolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol y sefydliadau.

2. Proses Asesu 2006-2007

Yr Hunanasesiad

2.1. Roedd 2006-2007 yn flwyddyn ddatblygiadol, pan ymgwymerwyd â datblygu a phrofi proses asesu newydd. Rhoddwyd y pwyslais ar ddatblygu proses asesu a fyddai'n gosod y cyfrifoldeb am gydymffurfio â *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn ddigamsyniol ar Fyrddau'r sefydliadau gofal iechyd, ac a fyddai'n cefnogi'r agenda llywodraethu. Mae'r broses yn gam allweddol at sicrhau y delir y sefydliadau gofal iechyd yn atebol am safon y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, ac y caiff cleifion a'r cyhoedd well gwybodaeth am berfformiad darparwyr a chomisiynwyr eu gofal iechyd ac, yn bwysicach na hynny, y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2. Trwy ymgynghori â sefydliadau gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi datblygu proses hunanasesu sy'n profi perfformiad gyferbyn â'r *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel wahanol:

- *Corfforaethol* – pa mor dda y mae'r Byrddau yn gwneud eu gwaith, o ran sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau?
- *Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol* – sut y sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau ar lefel y gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Claf*² – sut brofiad a gaiff y defnyddiwr, ac a yw'r profiad yn gwella?

2.3. Mae meini prawf a chwestiynau asesu wedi eu gosod ar gyfer pob safon, ac wedi eu datblygu yn offeryn asesu sy'n seiliedig ar y we ac yn caniatáu llenwi'r hunanasesiadau ar-lein, gan lanlwytho tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r atebion a roddir i bob cwestiwn. Cefnogir y cwestiynau gan ganllawiau defnyddiol sy'n esbonio gofynion pob un o'r 32 o safonau.

² Yng nghyd-destun y broses asesu ynglŷn â'r Safonau Gofal Iechyd, arferir y term 'defnyddiwr' i ddynodi, cleifion, defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a staff.

2.4. Mynnwyd bod y sefydliadau yn asesu eu cynnydd tuag at gyflwyno perfformiad o'r lefel uchaf gyferbyn a phob un o'r 32 safon, trwy ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae matrices o'r fath yn caniatáu asesu'r perfformiad yn y meysydd corfforaethol, gweithredol a phrofiad y claf fel un o'r pum lefel aeddfedrwydd canlynol:

- Ymwybodol
- Ymatebol
- Datblygol
- Ymarferol
- Arweiniol

Diffinnir pob un o'r lefelau aeddfedrwydd hyn yn Atodiad 1

2.5. Gan mai blwyddyn o ddatblygu oedd eleni, bu'n rhaid i sefydliadau'r GIG gadw o fewn rhai terfynau amser tyn, ac yr oedd yn ofynnol iddynt gyflwyno hunanasesiad cyflawn i AGIC erbyn 30 Mehefin 2007, sef tri mis ar ôl rhyddhau'r offeryn asesu. Llwyddodd BILI Caerdydd i wneud hynny mewn pryd, a hoffem gydnabod yr holl waith, ymdrech ar ymroddiad a ddangoswyd gan y BILI er mwyn cwblhau'r cyfan erbyn y dyddiad cau.

Profi a Dilysu

2.6. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu'r cyflwyniad hunanasesu gan BILI Caerdydd, ac yr oedd hynny yn cynnwys nifer o gamau:

- *Cam 1* – Dilysiad pen bwrdd o'r hunanasesiad gan gymheiriaid ac adolygwyr lleyg. Roedd y cam hwn yn nodi a oedd y cwestiynau ategol ar gyfer pob maen prawf wedi'u hateb yn briodol, profi a oedd yr ateb wedi ei gefnogi gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol, a gwerthuso a oedd yr ateb yn cyd-fynd â'r sgôr aeddfedrwydd a ddyfarnwyd gan y sefydliad.
- *Cam 2* – Cynhaliwyd cyfarfodydd cymedroli trwy gydol mis Awst i gymharu a chyferbynnu ymatebion a sgoriau aeddfedrwydd, fesul sefydliad a fesul

safon. Roedd y cam hwn o'r broses yn allweddol er mwyn sicrhau bod y sgoriau'n gyson a safonedig.

- *Cam 3* – Ymweld â safleoedd y sefydliadau i brofi agweddau ar brofiad y claf/ defnyddiwr.

Yr Ymweliad Safle

2.7. Roedd yr ymweliad safle yn un o'r camau yn y broses o ddilysu a phrofi hunanasesiad BILI Caerdydd, ac fel y nodwyd uchod, roedd yn canolbwyntio ar brofi agweddau allweddol ar brofiad y claf. Gwnaed ein hymweliad ar 27 Medi 2007, a buom yn hwyluso grwpiau ffocws o'r cleifion ac o'r staff.

2.8. Yn ychwanegol ar ddiwrnod ein hymweliad, gwiriwyd yr hyfforddiant, y gwiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) a'r gwerthusiadau a ddarparwyd i'r staff. Mae rhaglen waith fanwl ar gyfer yr ymweliadau hyn ar gael ar wefan AGIC yn www.agic.org.uk.

Uwchgynadleddau Gofal Iechyd

2.9. Ym mis Awst, cydgysylltwyd a hwyluswyd tri chyfarfod rhanbarthol, 'Uwchgynadleddau Gofal Iechyd' gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, gan ddod a chyrrff adolygu ac archwilio ynghyd fel y gellid rhannu gwybodaeth a'i chyfrannu i'r broses o gadarnhau'r asesiadau Safonau Gofal Iechyd. Mae'r Uwchgynadleddau hyn yn gam allweddol yn y symudiad tuag at rannu mwy o wybodaeth ledled y sefydliadau adolygu, a datblygu cynlluniau archwilio a sicrhau ar y cyd.

3. Trosolwg ar Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd

3.1. Sefydlwyd BILI Caerdydd ar 1 Ebrill 2003 o ganlyniad i ad-drefnu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

3.2. Y canlynol yw gweledigaeth a gwerthoedd BILI Caerdydd:

- Lleihau anghydraddoldebau yn y modd y darperir gwasanaethau gofal iechyd
- Sicrhau mynediad priodol at wasanaethau, o ran lleoliad, prydlondeb a chydraddoldeb.
- Annog a grymuso pobl i gymryd y cyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain
- Comisiynu gwasanaethau cynhwysfawr, heb adael dim 'bylchau', ar draws y gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl, canolraddol ac eilaidd, ac ar draws yr holl asiantaethau
- Cynnwys y boblogaeth leol yn y ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol, a rhoi gwybod iddynt beth sy'n digwydd.
- Ymgysylltu yn llawn ac yn gyfartal â holl breswylwyr Caerdydd wrth benderfynu ynglŷn â'u hiechyd a'u gwasanaethau iechyd
- Hyrwyddo, darparu a chynnal amgylchedd gwaith diogel ac iach ar gyfer ein staff.

4. Canfyddiadau – gan gynnwys meysydd ar gyfer Gwella ac Arferion Da

4.1 Profiad y claf

Safon 1

Gofynnir am farn y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd, ac ystyrir eu barn wrth ddylunio, cynllunio, cyflawni, adolygu a gwella gwasanaethau gofal iechyd a'u hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

S1.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol, a Phrofiad y Defnyddiwr.

S1.2. Mewn cyfarfod o'r Bwrdd yn Ionawr 2007, cymeradwyodd y BILI ei asesiad gwaelodlin Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Mae'r ddogfen honno yn nodi'r dulliau cyfathrebu a fabwysiadwyd gan y BILI, a defnyddiwyd y ddogfen yn sail ar gyfer datblygu ei Bolisi Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

S1.3 Anogir gweithredu i gynnwys cleifion, gofalwyr, perthnasau ac aelodau'r cyhoedd yn y gwaith o wella ansawdd y gofal a'r gwasanaethau a ddarperir gan y BILI, trwy:

- Ymgynghori ffurfiol. Er enghraifft, cychwynnwyd dau ymgynghoriad ffurfiol mewn partneriaeth â Chyngor Cymuned Caerdydd, ynghylch Adolygu Gwasanaethau i Fenywod a chynigion ar gyfer canol a dwyrain Caerdydd.
- Paneli cyfeirio lleol a gweithdai – mae'r BILI yn darparu cyllid i'r Cyngor Iechyd Cymunedol (CIC) i drefnu paneli cyfeirio a gweithdai mewn canolfannau lleol. Mae'r paneli hyn yn allweddol ar gyfer cysylltu â'r cyhoedd ehangach.

Sicrheir adborth trwy gyfrwng:

- Cwynion – mae Polisi Cwynion y BILI ar gael fel drafft ar hyn o bryd
- Gwefan y BILI

- Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol
- Arolygon Cleifion sy'n rhan o'r Fframwaith Canlyniadau Ansawdd (FfCA)

S1.4 Disgrifiodd y BILI y ffyrdd a ddefnyddir ganddo i gasglu gwybodaeth am safbwyntiau'r staff, ond dywedodd nad oedd wedi cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb.

S1.5 Mae'n ymddangos bod y BILI wedi camddeall nifer o'r cwestiynau ar lefel Profiad y Claf, ac nid esboniodd sut y mesurir ac yr asesir boddhad y cleifion, ac eithrio trwy gyfeirio at y gofyniad mewn Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau) bod y sefydliadau sy'n darparu yn deall boddhad y cleifion â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Yn ychwanegol, nid ymdrinnir â boddhad y cleifion mewn perthynas â'r un o'r llinynnau cydraddoldeb.

S1.6 Darparwyd enghreifftiau o'r newidiadau a wnaed i'r gwasanaethau, ond nid oedd yn ymddangos bod nifer o'r newidiadau yn ganlyniad uniongyrchol adborth gan y cleifion. Roedd yn amlwg, fodd bynnag, bod yr hyfforddiant a'r gwella ymwybyddiaeth o hunan-niweidio yn Adran Damweiniau ac Achosion Brys (D&AB) Ysbyty Prifysgol Cymru, a'r daflen ar y Gwasanaeth Argyfwng Iechyd Meddwl, wedi tarddu o'r adborth a gafwyd gan gleifion.

S1.7 Yn ein barn ni mae'r BILI yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr, ond yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Mae angen rhagor o dystiolaeth o gyfeirio strategol o ran cynnwys y cleifion a'r cyhoedd (CCC) ac o fonitro boddhad cleifion â'r gwasanaethau cyn y gellir cytuno i'r asesiad Datblygol ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 2

Mae cynllunio a chyflawni gofal iechyd yn:

- a. *adlewyrchu profiadau, safbwyntiau a dewisiadau cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth;*
- b. *adlewyrchu anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;*

- c. yn seiliedig ar dystiolaeth a gytunir yn genedlaethol ac ar yr arferion gorau; ac*
- ch. yn sicrhau tegwch o ran mynediad at wasanaethau.*

S2.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol, a Phrofiad y Defnyddiwr.

S2.2. Roedd y BILI yn gallu dangos bod camau'n cael eu cymryd i roi sylw i'r safon hon, gan gynnwys:

- Gweithredu Cynllun Cymhelliad Presgripsiynu.
- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Cynllun Cyflawni Lleol
- Asesiad Anghenion yn ardal y Drenewydd
- Cynllun Gwasanaeth a Chomisiynu Blynnyddol

S2.3 Mae'r BILI wedi sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol Gwasanaeth a Chomisiynu i gynghori'r Bwrdd ynglŷn â Blaenoriaethau Clinigol a darparu cyngor clinigol ar y blaenoriaethau comisiynu. Defnyddir Cerdyn Sgorio Cytbwys y BILI i fonitro cyflawniad y darparwyr.

S2.4 Nid oes unrhyw fecanweithiau ffurfiol wedi eu sefydlu i ddarparu gwybodaeth fanwl i gleifion am amseroedd aros na thystiolaeth a gytunwyd yn genedlaethol ynghylch yr arferion gorau, ac nid yw'n ymddangos bod unrhyw weithdrefnau na mecanweithiau wedi eu sefydlu i sicrhau mynediad cyfartal cyffredinol i'r gwasanaethau a gomisiynir. Cyfeirir at Gytundebau Lefel Gwasanaeth a Chytundebau Hirdymor sy'n darparu'n benodol y bydd darparwyr yn sicrhau mynediad cyfartal; at y gofynion a bennir yn y contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC); ac at y Cerdyn Sgorio Cytbwys.

S2.5. Er y gallwn gadarnhau asesiad y BILI o **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol, mae angen i'r Bwrdd ddangos ei fod yn ymroi i gasglu adborth a monitro mewn perthynas â

mynediad cyfartal. Yn ein barn ni, felly, mae'r BILI yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 3

Dylai cleifion sydd ag anghenion iechyd brys gael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a bennir yn flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

S3.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol, **Datblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S3.2. Mae'r Bwrdd yn monitro cydymffurfiaeth â'r targedau mynediad brys cenedlaethol trwy'r Cerdyn Sgorio Cytbwys, yr adroddir yn ei gylch wrth y Bwrdd yn chwarterol, yn rhan o fframwaith rheoli perfformiad cyffredinol y BILI.

S3.3 Mae'r targedau mynediad brys cenedlaethol yn cael eu monitro fel a ganlyn:

- GMC Tu Allan i Oriau: mae Grŵp Monitro Perfformiad Tu Allan i Oriau y BILI yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol ac Ansawdd, sy'n is-bwyllgor ffurfiol i'r Bwrdd, ac yn gyfrifol am adolygu a monitro perfformiad y gwasanaeth gyferbyn â'r targedau mynediad a bennir ym manyleb y contract. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol.
- Gofal Eilaidd. Mae'r dull o fonitro perfformiad yr Ymddiriedolaeth gyferbyn â'r safon 4 awr D&AB yn defnyddio adroddiadau wythnosol a chrynodebau misol a gynhwysir yn adroddiad perfformiad yr Ymddiriedolaeth.
- Darperir ar gyfer anghenion brys iechyd meddwl trwy gyfrwng y ddau dîm Datrys Argyfwng a Thriniaeth Gartref sy'n darparu rhyngddynt ar gyfer y cyfan o Gaerdydd. Cefnogir y rhain gan fynediad i Dŷ Argyfwng. Y Cydfecanwaith Cynllunio ar gyfer Iechyd Meddwl sy'n monitro perfformiad y gwasanaeth hwn.

- Mae gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau yn cael eu comisiynu ar y cyd â'r BILlau eraill yn yr ardal flaenorol Bro Taf, ac yn cael eu monitro gan fforwm o'r byrddau ar y cyd.

S3.4 Bu Bwrdd y BILl yn ystyried yr adroddiad cenedlaethol ar Ddarparu Gwasanaethau Gofal Brys (DGGB) ac y mae'r gymuned iechyd leol ar hyn o bryd yn datblygu cynllun lleol ar gyfer dyfodol y gwasanaethau gofal brys, sy'n rhan o'r Rhaglen ar gyfer Gwella'r Gwasanaeth Iechyd.

S3.5 Nid oes unrhyw fecanweithiau penodol wedi eu sefydlu i roi gwybodaeth reolaidd i'r staff am y perfformiad gyferbyn â'r targedau mynediad brys, ac eithrio'r cerdyn sgorio cytbwys chwarterol. Cyfeirir at yr adroddiadau perfformiad a gyflwynir gan Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro a phresenoldeb staff Gweithredol yng nghyfarfodydd Bwrdd Rhwydwaith Gofal Caerdydd a Bro Morgannwg. Nid yw'n eglur, fodd bynnag, pa mor eang y lledaenir yr wybodaeth honno.

S3.6 Dywed y BILl nad yw'n darparu gofal brys yn uniongyrchol ei hunan ac, o ganlyniad, nad yw'n darparu gwybodaeth i'r cleifion am dargedau mynediad brys, nac yn cynnig opsiynau iddynt o ran mynediad at wasanaethau.

S3.7. Rydym yn ystyried, felly, bod y BILl yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol yn ogystal ag ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Safon 4

Mae'r adeiladau gofal iechyd wedi eu cynllunio'n dda, ac yn briodol ar gyfer :

- a. hybu lles y cleifion a'r staff;*
- b. parchu anghenion, preifatrwydd a chyfrinachedd gwahanol gleifion;*
- c. ystyried diogelwch y cleifion y defnyddwyr a'r staff; ac*
- ch. darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.*

S4.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymatebol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol.

S4.2. Gallai'r BILI ddangos bod camau wedi eu cymryd mewn perthynas â'r safon hon, gan gynnwys:

- Datblygu Strategaeth Ystadau Gofal Iechyd Integredig ar gyfer darparwyr Gofal Sylfaenol.
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG) priodol i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer y boblogaeth o garcharorion yng Ngharchar Caerdydd, a datblygu adeilad newydd i letya cyfleuster cleifion mewnol modern a phwrpasol.
- Datblygu rhaglen amlinell strategol i hwyluso ailddarparu adeilad addas ar gyfer y gwasanaethau iechyd meddwl.
- Datblygu cynlluniau pontio ar gyfer dilyniant a pharhad y gwasanaethau radiotherapi ar safle Felindre, a nodi pa offer y mae angen eu prynu, i gymryd lle ac i wella ar y ddarpariaeth bresennol, fel y gellir cyrraedd y targedau.

S4.3 Dywed y BILI yn ei gyflwyniad nad yw'n gyfrifol yn uniongyrchol a amgylcheddau gofal iechyd, ond ei fod yn sicrhau bod gofynion priodol ynglŷn â phreifatrwydd, urddas a diogelwch wedi eu nodi yn y CLGau. Fodd bynnag, mae'r BILI yn sicrhau mynediad at wybodaeth a hyfforddiant ar gyfer y contractwyr Gofal Sylfaenol. Dywed ymhellach nad cyfrifoldeb y BILI yw rhoi sylw i faterion staffio a phryderon ynghylch amgylcheddau gofal iechyd, ac nad oes ganddo system gofnodi ganolog ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau cydraddoldeb.

S4.4 Mae pob digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion yn cael eu monitro yn unol â'r Weithdrefn Cofnodi Achosion Niweidiol a Pheryglon; fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth i ddangos sut y mae digwyddiadau diogelwch cleifion sy'n ymwneud â ffactorau amgylcheddol yn cael eu monitro.

S4.5. Rhan o rôl y BILI yw sicrhau bod y gwasanaethau a gomisiynir ganddo yn cael eu darparu mewn amgylcheddau diogel sy'n sicrhau urddas a chyfrinachedd defnyddwyr y gwasanaethau.

S4.6. Gan hynny, rydym yn asesu'r BILI yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol yn unig, ond yn **Ymatebol** yn unig ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 5

Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau sydd

- a. yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn; ac*
- c. yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio mentrau i annog arferion gorau.*

S5.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ymatebol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ddatblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S5.2. Gyferbyn â phob un o'i atebion ar gyfer y safon hon, mae'r BILI yn datgan nad yw'n ddarparwr gwasanaeth uniongyrchol. Mae'n datgan hefyd:

- Nad yw rôl y BILI, o asesu a wnaed trefniadau digonol i fodloni'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer glanweithdra yn y sefydliadau sy'n darparu, yn fater a ystyriwyd yn ffurfiol gan y Bwrdd.
- Nad yw'n gyfrifol am gynnal a chadw adeiladau gofal iechyd.
- Nad oes ganddo gyfrifoldeb uniongyrchol am fesur, monitro ac adrodd ynghylch lefelau hylendid, ac nad yw wedi sefydlu proses i fonitro hyn yn y cyrff sy'n darparu.

S5.3 Rydym felly o'r farn mai **Ymwybodol** yn unig yw'r BILI ar bob un o'r tair lefel mewn perthynas â'r safon hon. Fel Arolygiaeth Gofal Iechyd, mae'r cyfryw atebion yn peri pryder inni, oherwydd dylai comisiynwyr sicrhau bod y darparwyr y comisiynir gwasanaethau ganddynt yn cydymffurfio â'r safonau hylendid ac yn gostwng y perygl o heintio.

Safon 6

Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

- a. yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn hygyrch i'r cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau ac i'r cyhoedd ynglŷn â'u gwasanaethau;*
- b. yn darparu gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth ynglŷn â'u cyflwr; y gofal a'r driniaeth a gânt, a'r trefniadau ar gyfer ôl-ofal a chymorth; ac*
- c. yn rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth i drafod a chytuno ar opsiynau sy'n ymwneud â'u gofal.*

S6.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol, a Phrofiad y Defnyddiwr.

S6.2. Mae'r BILI wedi mabwysiadu'r polisiau a'r cynlluniau canlynol:

- Polisi Cyfathrebu ac Ymgysylltu.
- Cynllun Iaith Gymraeg.
- Grŵp Cyfeirio Diabetes.

S6.3. Rhoddodd y Bwrdd ei gymeradwyaeth i'r Polisi Cyfathrebu ac Ymgysylltu ym Mawrth 2007, ac y mae'n gweithio i ddatblygu strategaeth gyfathrebu. Darparodd y BILI ychydig o enghreifftiau i dangos sut y mae'n cymryd i ystyriaeth anghenion ffisegol a diwylliannol cleifion sy'n ceisio mynediad at wybodaeth, gan gynnwys y Rhaglen Cleifion Arbenigol.

S6.4. Dywed y BILI yn ei ymateb nad oes ganddo fecanwaith ffurfiol i fonitro'r mynediad at wybodaeth am y gwasanaethau, ac y gwneir newidiadau yn yr wybodaeth sydd ar gael ar sail ymatebion unigol a gyflwynir i'r BILI. Mae gan y BILI wefan sy'n darparu gwybodaeth am y BILI. Cyflogir ymgynghorydd ar anghenion y byddar, sy'n helpu cleifion â nam ar eu clyw i gael mynediad at wasanaethau; a pharatowyd cyfeiriadur gwasanaethau iechyd meddwl (statudol a gwirfoddol), sydd ar gael ar bapur ac ar-lein. Yn ychwanegol at yr wybodaeth ar y Rhyngrwyd, mae gwybodaeth ar bapur ar gael ym mhob

practis Ymarferydd Cyffredinol, ar ffurf taflenni sy'n cael eu monitro trwy'r ymweliadau Fframwaith Canlyniadau Ansawdd (FfCA)

S6.5. Roedd grŵp ffocws y cleifion yn tybio bod defnyddio gwefan yn syniad buddiol, ond mynegi pryder hefyd, oherwydd nad oes gan bawb fynediad i wefan o'r fath. Mae perthynas dda iawn rhwng y BILI a'r Cyngor Iechyd Cymunedol, er nad oedd pob aelod o'r grŵp ffocws cleifion yn ymwybodol o'u rôl a'u swyddogaethau. Mae angen i'r BILI ystyried a chydabod gwahanol anghenion y cleifion a'r cyhoedd, yn ffisegol a diwylliannol ac o ran iaith a chyfathrebu, wrth ddarparu a sicrhau mynediad at wybodaeth o fewn darparwyr gofal sylfaenol ac eilaidd. Ni allem gadarnhau asesiad y BILI o **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol na Phrofiad y Defnyddiwr, ac ystyriwn mai **Ymatebol** yn unig yw'r BILI mewn perthynas â'r safon hon.

Safon 7

Mae cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain.

S7.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol.

S7.2. Mae'n ymddangos bod y BILI wedi camddeall y cwestiynau ar y lefel Gorfforaethol ynglŷn â grymuso pob claf a defnyddiwr gwasanaeth i wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u hopsiynau gofal a thriniaeth; ac wedi rhestru, yn hytrach, y mentrau lle bu cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn ymwneud â datblygu gwasanaethau. O ran galluogi cleifion i reoli eu gofal eu hunain, mae'r BILI wedi:

- Cytuno ar y model cyflyrau cronig cyffredinol ar gyfer Caerdydd, sy'n nodi yn eglur y llwybr at addysg ffurfiol ac anffurfiol i rai sydd mewn perygl o ddiodef cyflwr cronig a rhai sydd eisoes â diagnosis o gyflwr o'r fath.

- Cyllido'r Rhaglen Cleifion Arbenigol ar y cyd â BILI y Fro a Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC)
- Noddi Rhwydwaith y Galon De-ddwyrain Cymru, ar gyfer argraffu cofnodion a ddelid gan gleifion ynglŷn â Chlefyd Coronaidd y Galon.
- Cefnogi a goruchwylio dau brosiect a gyllidwyd gan Anghydraddoldeb mewn Iechyd, oedd yn ymwneud â gwaith ataliol o fewn gofal sylfaenol ac eilaidd mewn ardaloedd o amddifadedd uchel yng Nghaerdydd.
- Cyflawni rhaglenni addysg strwythuredig ar gyfer pobl a oedd yn byw gyda diabetes math 2, yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE).
- Parhau i gyllido tîm yr Uned Adnoddau Anadlu Cymunedol sy'n gweithio yn y gymuned gyda chleifion â diagnosis o Glefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint, rhag eu traddodi i ysbyty neu er mwyn hwyluso eu rhyddhau yn gynnar o ysbyty.
- Cynorthwyo i gyllido'r Gwasanaeth Adsefydlu Cardiaidd yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, sy'n darparu rhaglen o addysg grŵp ar gyfer cleifion a ddioddefodd gnawdnychiant myocardiaidd os gwneir diagnosis o syndrom goronaidd aciwt.

S7.3 Mae tystiolaeth bod y BILI wedi sefydlu mentrau i sicrhau bod dioddefwyr cyflyrau cronig yn cael cefnogaeth a gwybodaeth ynglŷn â'u cyflwr a'u gofal.

S7.4. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI o **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, ond ystyriwn mai **Datblygol** yn unig ydyw ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol, oherwydd diffyg tystiolaeth o fonitro a gwerthuso.

Safon 8

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod y staff yn trin y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;*
- b. bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a pharch;*
- c. yr eir ati yn briodol i gael caniatâd goleuedig ar gyfer cysylltu â chleifion a defnyddwyr y gwasanaeth ac ar gyfer defnyddio unrhyw wybodaeth gyfrinachol am gleifion; ac*
- ch. y trinnir gwybodaeth am gleifion yn gyfrinachol ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu gweithredu'n groes i hynny.*

S8.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S8.2. Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn ymgynghraedd at y safon hon, ac wedi cymryd camau megis:

- Mabwysiadu Polisi Urddas yn Gweithle
- Gweithredu Polisi Disgyblu
- Datblygu canllawiau ar Weithdrefnau Cyfrinachedd a Hafan Ddiogel.
- Cyflawni Cytundeb Rhannu Gwybodaeth a Phrotocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth â darparwyr.

S8.3 Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y BILI yn cadarnhau bod y Bwrdd wedi sefydlu, ac yn parhau i sefydlu, systemau i fynd i'r afael â materion cyfrinachedd a gweithredu yn unol ag egwyddorion Caldicott a'r Ddeddf Diogelu Data. Yn ychwanegol at hynny, mae gan y BILI bolisi ar urddas yn y gwaith a gweithdrefnau disgyblu sy'n cael eu monitro a'u diweddarau yn flynyddol. Mewn perthynas â dysgu gwersi o ganlyniad i gwynion, darparwyd tystiolaeth a oedd yn cadarnhau bod prosesau gan y BILI i sicrhau hynny. Mae Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd y BILI yn cynnwys gweithred i sicrhau bod cwynion ffurfiol ac anffurfiol yn cael eu monitro, a bod Urddas a Chydraddoldeb yn cael eu trin fel categori ar wahân.

S8.4 Mae'n peri pryder inni nad yw'r BILI wedi mabwysiadu polisi ar ganiatâd, a'i fod yn datgan nad oes cyfrifoldeb arno, fel comisiynydd, yn y

cyswllt hwnnw. Daethom i wybod, fodd bynnag, bod mater caniatâd a chyfrinachedd cleifion wedi ei gynnwys mewn polisiau a gweithdrefnau trosfwaol.

S8.5 Yn ychwanegol, ni chyfeirir o gwbl at rôl y BILI o sicrhau bod mecanweithiau wedi eu sefydlu o fewn Gofal Sylfaenol mewn perthynas â chyfrinachedd, urddas a pharch.

S8.6 Ystyriwn ,felly, mai **Ymatebol** yw'r BILI ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

Safon 9

Lle bynnag y darperir bwyd, bydd systemau ar waith i sicrhau:

- a. *bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi eu paratoi'n diogel ac sy'n sicrhau diet gytbwys; ac*
- b. *bod gofynion maethol, personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran diet yn cael eu bodloni, gan roi iddynt unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd 24 awr y dydd.*

S9.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S9.2 Fel y mwyafrif o'r BILlau, roedd ymateb Caerdydd yn dynodi mai ar gyfer sefydliadau darparu yn unig yr oedd y safon hon yn gymwys. I ni fel Arolygiaeth Gofal Iechyd, mae ymateb o'r fath yn peri pryder, oherwydd dylai comisiynwyr fod yn sicrhau bod gan bob math o sefydliad darparu systemau a phrosesau yn weithredol a fydd yn sicrhau bod gofynion y safon hon yn cael eu bodloni. Dylai'r BILlau fod yn monitro hynny yn rhan o'u cyfrifoldebau comisiynu.

S9.3 Roedd y BILI, fodd bynnag, wedi darparu tystiolaeth o fonitro'r safon hon ar gyfer cleifion a gyllidir ganddo mewn cartrefi nyrsio yn y sector annibynnol.

S9.4 Mae timau o aseswyr nyrsio, yn rheolaidd, yn adolygu ac yn asesu'r cartrefi nyrsio lle mae eu cleifion yn preswyllo, ac wrth wneud hynny yn asesu eu hanghenion maethol. Ni allwn, felly, ond cadarnhau bod y BILI yn **Ymatebol** ar bob lefel o'r safon hon.

Safon 10

Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau na wahaniaethir yn annheg yn erbyn pobl sy'n cael gofal iechyd, ar sail oedran, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd na thueddfryd rhywiol.

S10.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymarferol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol.

S10.2. Mae'r BILI eisoes wedi sefydlu'r cynlluniau a'r polisiâu canlynol:

- Polisi Gwahaniaethu ar Sail Oedran
- Asesiad a Pholisi Effaith Cydraddoldeb
- Polisi Cyfeiriadedd Rhywiol
- Cynllun Cydraddoldeb Hiliol
- Cynllun Cydraddoldeb Anabledd
- Cynllun Iaith Gymraeg

Cynhelir asesiadau effaith cydraddoldeb i oleuo'r gwaith o ddatblygu polisiâu newydd, a darparwyd sesiynau hyfforddi ar gyfer aelodau Bwrdd y BILI, staff y BILI a staff a gyflogir gan Ymarferwyr Cyffredinol. Darparwyd enghreifftiau o ddatblygiadau yn y modd y darperir/ comisiynir gofal a gwasanaethau ar gyfer anghenion grwpiau penodol, megis y sesiynau Addysg Cleifion Diabetes i bobl o'r grwpiau Du a Lleihafrol Ethnig.

S10.3 Er darparu tystiolaeth o'i bolisiâu a'i gynlluniau, ni ddangosodd y BILI sut y cânt eu monitro, ac y mae'r BILI yn cydnabod bod angen cryfhau yn hynny o beth. Cyfeirir ymhellach at hyrwyddo arferion da yn y maes hwn, ond prin yw'r dystiolaeth o gyflawni a monitro.

S10.4. Ystyriwn mai **Datblygol** yw'r BILI ar bob un o'r tair lefel mewn perthynas â'r safon hon.

4.2. Canlyniadau Clinigol

Safon 11

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. *y darperir triniaethau a gofal clinigol gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;*
- b. *y cyflawnir gofal clinigol a thriniaethau o dan oruchwyliaeth ac arweiniad priodol gan staff clinigol;*
- c. *bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau gan gymheiriaid; ac*
- ch. *bod clinigwyr yn cymryd rhan mewn archwiliadau ac adolygiadau rheolaidd o'r gwasanaethau clinigol.*

S11.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S11.2. Mae'n ymddangos bod y BILI wedi camddeall y cwestiynau mewn perthynas ag archwilio clinigol a rhaglenni effeithiolrwydd, ac o ganlyniad ni ddangosodd ddull strategol o ymdrin ag archwilio clinigol.

S11.3. Yn ychwanegol, ni ddarparwyd tystiolaeth o hyfforddiant lleol mewn goruchwyllo clinigol, nac o'r modd y mae polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â goruchwyllo clinigol yn cael eu datblygu neu eu gweithredu. Mae'r BILI yn cydnabod bod angen cryfhau a datblygu'r sgiliau arwain ar bob lefel.

S11.4 Mae'r ymarferwyr cyffredinol y cynnal gwerthusiadau blynyddol, a'r BILI ei hunan sy'n pennu safonau achredu ac arbenigedd a fynnir er mwyn cyflwyno gwell gwasanaethau. Enghraifft o hynny yw'r lefel o drefniadaeth a hyfforddiant sy'n ofynnol o fewn practis er mwyn darparu monitro therapi gwrthgeulydd ar Lefel 4. Mae'r BILI yn cynnig rhaglenni hyfforddi i nyrsys ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus. Gweithredir Fframwaith Sgiliau Allweddol a phroses werthuso'r GIG, sy'n diffinio ac yn disgrifio'r wybodaeth a'r sgiliau y mae'n ofynnol i'r staff eu defnyddio yn eu gwaith er mwyn cyflwyno gwasanaethau o'r safon briodol.

S11.4. Mae profiad y claf yn un o'r meysydd yn y contract GMC newydd sy'n mynnu bod practisiau'n cynnal arolygon o farn y cleifion. Ni ddarparwyd tystiolaeth i dangos bod arolygon o'r fath wedi eu cynnal, nac ychwaith bod gwybodaeth o unrhyw arolwg wedi goleuo'r arferion. Er bod y BILI yn ymgysylltu â chleifion, gofalywr ac aelodau o'r cyhoedd mewn nifer o fforymau, nid oedd tystiolaeth i ddangos sut y mae canfyddiadau'r archwiliadau clinigol yn cael eu rhannu â'r cleifion. Yn ychwanegol, ni ddarparwyd tystiolaeth i ddangos sut y rhoddir sicrwydd i'r cleifion bod y penderfyniadau clinigol wedi eu seilio ar yr arferion gorau. Ni allwn gytuno, felly, ag asesiad y BILI o **Ddatblygol** ar y lefel Profiad y Defnyddiwr, ac ystyriwn mai **Ymatebol** yw'r BILI ar bob un o'r tair lefel.

Safon 12

Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol, sydd:

- a. *yn cydymffurfio ag arfarniadau technolegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) ac argymhellion Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);*
- b. *yn seiliedig ar yr arferion gorau a gytunir yn genedlaethol fel y'u diffinnir yn y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, cynlluniau cenedlaethol a chanllawiau ar gyflawni gwasanaethau a gytunir yn genedlaethol;*
- c. *yn ystyried anghenion a dymuniadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion; ac*
- ch. *yn integredig er mwyn darparu un gwasanaeth ar gyfer yr holl gyrff sydd i'w cynnwys, gan gynnwys cyrff gofal cymdeithasol.*

S12.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ymatebol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ddatblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S12.2. Roedd y BILI yn gallu dangos bod y Bwrdd yn adnabod y materion allweddol sydd arnynt angen sylw ynglŷn â'r safon hon, gan gynnwys:

- Sesiynau cinio a dysgu i ymdrin â materion fel Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, asesu anghenion iechyd mewn carchardai a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol
- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Caerdydd: Gweithdrefn ar gyfer Cydweithredu 2007
- Contract gyda Llinell Iaith
- Y Rhaglen ar gyfer Gwella'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg – corff trefniadol teiran yw hwn, sy'n darparu atebolrwydd a seilwaith i yrru ymlaen â'r agenda moderneiddio ac i ddyrannu adnoddau fel y bo'n briodol o fewn y gymuned iechyd gyfan
- Sefydlu Grŵp Cymorth a Chyngor Diabetes Lleol, a fydd yn cynnig cyngor ar weithredu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Diabetes trwy ymgysylltu â'r holl bartïon sydd â diddordeb, gan gynnwys defnyddwyr y gwasanaeth.

S12.3. Nid oes mecanweithiau sy'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd y cyflawnir Hanfodion Gofal, ond cafwyd cadarnhad gan y Bwrdd y cynhwysir hyn yn yr holl drefniadau contractio yn y dyfodol. Er bod gwaith wedi ei wneud ar y cyd â phartneriaid i ddatblygu llwybrau lefel uchel ar gyfer cyflyrau hirdymor, ni ddarparwyd enghreifftiau o lwybrau gofal integredig. Rydym o'r farn, felly, mai **Ymatebol** yw'r BILI ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

Safon 13

Bydd gan gyrff gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cyfrannu at waith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson.

S13.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymarferol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol.

S13.2. Roedd y BILI yn gallu dangos bod rhai camau yn cael eu cymryd i roi sylw i'r safon hon, gan gynnwys:

- Fframwaith Llywodraethu Ymchwil
- Prosesau Cymeradwyo ar gyfer Llywodraethu Ymchwil
- Prosesau ar gyfer adolygu ceisiadau ymchwil, sy'n cynnwys adolygu holl ddogfennaeth yr astudiaeth, gan fynnu ei bod yn nodi'r risgiau yn briodol ac yn cynnwys gweithdrefn cwynion, dogfennaeth caniatâd gwybodus a chymeradwyaeth gan y Pwyllgor Moeseg Ymchwil Feddygol
- Cronfa Ddata Llywodraethu Ymchwil.

S13.3. Er y gallem gadarnhau asesiad y BILI o **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol, nid oedd tystiolaeth bod llywodraethu clinigol dros y 12 mis diwethaf wedi effeithio ar brofiad y cleifion. Er bod tystiolaeth y sefydlwyd systemau cyfathrebu a chyfleoedd hyfforddi i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r fframwaith llywodraethu ymchwil a'r canllawiau cysylltiedig, nid oedd tystiolaeth o welliant parhaus ledled y sefydliad. Ystyriwn, felly, fod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefel Weithredol ond yn **Ymatebol** yn unig ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

4.3. Llywodraethu Gofal Iechyd

Safon 14

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella pob agwedd ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a diogelwch y cleifion, y staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r ddeddfwriaeth ond hefyd yn defnyddio'r arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

S14.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol, a Phrofiad y Defnyddiwr.

S14.2. Roedd y BILI wedi sefydlu'r strwythurau, polisiau a'r gweithdrefnau canlynol:

- Polisi Iechyd a Diogelwch.
- Polisi Cadw Tŷ
- Polisi Cymorth Cyntaf.
- Polisi a Gweithdrefn Tân.
- Polisi Smygu.
- Pwyllgor Rheoli Risg.
- Polisi a Fframwaith Strategol Rheoli Risg.
- Cofrestr Risgiau Corfforaethol
- Pwyllgor Llywodraethu Clinigol ac Ansawdd
- Strwythurau adrodd trwy gyfrwng y Polisi Iechyd a Diogelwch, sy'n nodi cyfrifoldebau'r corff ei hunan yn ogystal â'i gyflogaion, o ran cynnal iechyd, diogelwch a lles yr holl staff.

Cefnogir Polisi Iechyd a Diogelwch y BILI gan Gynllun Gweithredu Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd, sy'n eitem sefydlog ar agenda Fforwm Iechyd a Lles y staff.

S14.3. Rydym yn cadarnhau asesiad y BILI o **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol, gan ei fod wedi dangos bod systemau ganddo i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion iechyd a diogelwch a rheoli risg, ynghyd â

thystiolaeth o werthuso a gwella parhaus. Yn ychwanegol, bu'r BILI yn annog defnyddio gwefan yr Asiantaeth Diogelwch Cleifion Genedlaethol i adrodd yn ddiennw am ddigwyddiadau diogelwch cleifion, a rhoddir gwybod am hynny wedyn i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol ac Ansawdd. Yn rhan o'r FfCA, mynnir bod y practisiau yn cynnal arolwg cleifion ac yn datblygu cynllun gweithredu i roi sylw i'r materion a godir yn yr arolwg. Mae'r BILI yn cydweithio â'r CIC i ddilysu'r cynllun gweithredu hwnnw.

S14.4. Ni ddarparwyd tystiolaeth o werthuso hyfforddiant. Gwan hefyd oedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan y BILI o ymgysylltiad cleifion a defnyddwyr gwasanaethau â'r gwaith o ddatblygu'r rhaglenni gwella ansawdd. Ystyriwn, felly, mai **Ymatebol** yw'r BILI ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr

Safon 15

Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, sicrhau bod cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

- a. yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;*
- b. yn cael sicrwydd y rhoddir sylw prydlon a thrylwyr i'w cwynion, yn unol â'r gweithdrefnau;*
- c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth a ddarperir gan gynghorau lechyd Cymunedol yng Nghymru; ac*
- ch. yn cael sicrwydd bod cyrff iechyd yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.*

S15.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn **Ymarferol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S15.2. Nid cyn Ebrill 2007 y drafftwyd polisi cwynion y BILI, a phan gyflwynwyd ei hunanasesiad, nid oedd y polisi eto wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd. Ar gyfer sicrhau y caiff cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr gyflwyno adborth ar eu profiad yn yr iaith o'u dewis, mae'r BILI yn comisiynu gwasanaeth gan Llinell Iaith ac yn cyflogi dehonglydd iaith Arwyddion Prydain.

S15.3. Yn rhan o'i Gynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd, mae'r BILL wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod cleifion yn cael cyfle i gyflwyno adborth. tynnwyd sylw hefyd at yr angen i fonitro a dadansoddi cwynion yn rheolaidd ar sail hil, anabledd, crefydd a chredo, oedran, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

S15.4. Ystyriwn, felly, mai **Ymatebol** yw'r BILL ar bob lefel o'r safon hon.

Safon 16

Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:

- a. *i nodi pob digwyddiad sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu ganddynt*
- b. *adrodd am ddigwyddiadau wrth System Genedlaethol Adrodd a Dysgu yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA), a chyrrff eraill yn unol â'r chanllawiau presennol*
- c. *dangos eu bod wedi gwella eu hymarfer ar sail gwybodaeth a phrofiadau a rennir yn lleol ac yn genedlaethol a gwybodaeth sy'n tarddu o ddadansoddi digwyddiadau; ac*
- ch. *sicrhau bod pobl yn gweithredu o ganlyniad i hysbysiadau diogelwch, rhybuddion, a negeseuon eraill sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion, o fewn y terfynau amser gofynnol*

S16.1. Asesodd y BILL ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymarferol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol.

S16.2. Roedd y BILL yn gallu dangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i ymgynhyrdd at y safon hon, a bod y camau hynny yn cynnwys:

- Mabwysiadu Polisi Digwyddiadau a Pheryglon
- Pwyllgor Rheoli Risg.
- Gweithdrefnau Rheoli Digwyddiadau
- Adrodd am ddigwyddiadau difrifol wrth y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol ac Archwilio bob dau fis.

S16.3. Gwan oedd ymateb y BILL i'r cwestiwn 'sut y gwneir y staff yn ymwybodol o'r gofynion i adrodd am ddigwyddiadau wrth yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion a chyrrff eraill': cyfeiriwyd yn unig at

becynnau sefydlu a hyfforddiant sefydlu corfforaethol. Adroddir am ddigwyddiadau bob dau fis wrth y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol ac Ansawdd, ac yn flynyddol wrth y Bwrdd trwy'r Adroddiad Cwynion blynyddol. Fodd bynnag, dywed y BILI nad yw eto wedi sefydlu mesurau i brofi a gwerthuso cadernid y mecanweithiau adrodd presennol.

S16.4 Ystyriwn, felly, mai **Ymatebol** yw'r BILI ar bob lefel ar gyfer y safon hon.

Safon 17

Bydd cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ddelio â chyrff eraill.

S17.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol, a Phrofiad y Defnyddiwr.

S17.2. Roedd y BILI yn gallu dangos bod y canlynol wedi eu sefydlu:

- Strwythur rheoli priodol
- Arweinwyr Gweithredol ar gyfer Amddiffyn Plant
- Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio yn arweinydd ar gyfer Amddiffyn Oedolion
- Aelod anweithredol o'r Bwrdd yn Hyrwyddwr Plant
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth gydag Age Concern, i sicrhau, ar gyfer preswylwyr Caerdydd a Bro Morgannwg, darpariaethau penodedig o ofal iechyd i grwpiau diffiniedig o gleientiaid
- Hyfforddiant ar gyfer staff y BILI a staff Gofal Sylfaenol, yn y gweithdrefnau ar gyfer amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion agored i niwed
- Strwythurau ar gyfer adrodd am faterion amddiffyn plant ac atgyfeiriadau oedolion agored i niwed
- Polisi a gweithdrefnau mewn perthynas â'r Swyddfa Cofnodion Troseddol

- Rhwydwaith Amddiffyn Plant o dan arweiniad Ymarferydd Cyffredinol.

S17.3. Ni chytunwyd hyd yma ar Bolisi Amddiffyn Plant, ac ni chyfeiriwyd o gwbl at sefydlu polisi Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (AOAN). Ni allwn, felly, gadarnhau mwy nag aeddfedrwydd **Datblygol** ar y lefel Gorfforaethol. Bach iawn oedd y dystiolaeth a gynigiwyd i ategu'r wybodaeth a roddwyd ar gyfer y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o werthuso ansawdd yr hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion a ddarparwyd, nac o werthuso a roddwyd yr hyfforddiant cywir i'r bobl gywir. Nid oedd dystiolaeth bod adolygiad wedi ei gynnal i ganfod a oedd yr ymarfer wedi gwella o ganlyniad i'r hyfforddiant, neu ganfod sut y mae gwybodaeth o'r Pwyllgor Amddiffyn Oedolion lleol a Fforwm Amddiffyn Oedolion De Cymru yn cael ei lledaenu i'r BILI ac i'r staff gofal sylfaenol. Ystyriwn felly mai **Ymatebol** yw'r BILI ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr

Safon 18

Mae cyrff gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar y ddarpariaeth arferol o wasanaethau, ac wedi ymarfer yr ymateb lle bo'n ofynnol.

S18.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S18.2. Roedd y BILI yn gallu dangos bod camau'n cael eu cymryd i roi sylw i'r safon hon, gan gynnwys:

- Cyflawni Cynllun Digwyddiadau Mawr.
- Cyflwyno ei Adroddiad Blynyddol ar Gynllunio Argyfwng Iechyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- Archwiliad mewnol o'r gweithdrefnau digwyddiadau mawr.

S18.3. Cyfrannodd y BILI i nifer o ymarferiadau ffug a gyflawnwyd o dan adain Fforwm Cynllunio Argyfwng De-ddwyrain Cymru. Cwblhawyd archwiliad mewnol hefyd o Gynllun Digwyddiadau Mawr a Chynllun Ffliw Pandemig y BILI, ac y mae cynlluniau parhad busnes a chynlluniau gweithredu hefyd yn cael eu datblygu.

S18.4 Mae'r BILI yn cydnabod bod angen datblygu hyfforddiant ar gyfer y staff, er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'i rôl mewn unrhyw argyfwng mawr. Yn ein barn ni, mae'r BILI yn **Ddatblygol** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

Safon 19

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. *bod pob risg sy'n gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiau meddygol wedi eu lleihau i'r eithaf;*
- b. *bod pob dyfais feddygol aml dro wedi ei diheintio'n briodol cyn ei defnyddio, a bod y risgiau sy'n gysylltiedig â chyfleusterau a phrosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;*
- c. *bod materion sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau yn cael eu rheoli; ac*
- ch. *bod y gwaith o atal, didoli, trin, cludo a gwaredu gwastraff yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n lleihau i'r eithaf i y risgiau i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd, ac i diogelwch yr amgylchedd.*

S19.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol, ac yn **Ddatblygol** ar y lefel Profiad y Defnyddiwr.

S19.3. Roedd ymateb y BILI yn dangos bod mecanweithiau wedi eu sefydlu ar gyfer dethol, caffael, cofnodi a chynnal offer a dyfeisiau meddygol.

Darparwyd tystiolaeth hefyd bod gweithdrefnau wedi eu sefydlu ar gyfer dadheintio a rheoli gwastraff. Mae'r Prosiect Cydwasanaethau Cyfarpar yn darparu gwasanaeth caffael, storio a dosbarthu i ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn ardal ddaearyddol Caerdydd a Bro Morgannwg. Yn rhan o'r ymweliadau perfformiad FfCA, gwirir y polisïau ar sterileiddio a dadheintio cyfarpar ym mhob practis yr ymwelir ag ef.

S19.4. Nid oedd strategaeth rheoli meddyginiaethau y BILLI wedi ei chynnwys yn y dystiolaeth, ac esboniodd y BILLI bod angen adolygu'r strategaeth honno. Prin oedd y dystiolaeth a gyflenwyd i gefnogi'r wybodaeth a roddwyd ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Nid oedd dystiolaeth o werthuso nac o welliant parhaus ar draws y sefydliad yn amlwg ar y lefelau hyn. Ni allwn gytuno, felly, ag asesiad y BILLI o **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr, ac ystyriwn mai **Datblygol** yn unig yw'r BILLI.

Safon 20

Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati i wella'r gofal ar gyfer cleifion a boddhad y staff yn barhaus, gan ddefnyddio'r arferion gorau wrth reoli adnoddau dynol.

S20.1. Asesodd y BILLI ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S20.2. Mae'r BILLI wedi sefydlu'r polisiau, y gweithdrefnau a'r trefniadau canlynol:

- Mabwysiadu Polisiau Cymru Gyfan ar gyfer Cyflogaeth
- Strategaeth a gweithdrefnau Recriwtio a Dethol.
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) adnoddau dynol gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes (CGB)
- Polisi Urddas yn y Gweithle
- System Perfformiad a Gwerthuso
- Arolygon Staff
- Cod Ymarfer

S20.3. Ni ddarparwyd gwybodaeth am amseriad a lleoliad y sesiynau hyfforddiant recriwtio a dethol, na phwy oedd yn bresennol na'r prosesau gwerthuso. Mae staff o gyfarwyddiaeth gwasanaethau corfforaethol y BILLI yn cyfarfod â staff AD yn y Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn fisol i drafod y gweithdrefnau ac unrhyw gwynion, a dosberthir cylchlythyr newyddion AD i

bob aelod o staff y BILL. Ni ddarparwyd tystiolaeth bod yr CLG ar gyfer gwasanaethau AD a ddarperir gan y CGB yn cael ei fonitro yn ffurfiol.

S20.4. Ni chyflwynwyd tystiolaeth bellach o werthuso nac o welliant parhaus ledled y sefydliad. Rydym felly o'r farn bod y BILL yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol, ond **Ymatebol** yn unig ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Safon 21

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn cyflawni'r holl wiriadau angenrheidiol cyn cyflogi ac yn sicrhau bod yr holl staff proffesiynol cymwysedig, boed yn gyflogedig neu ar gontract, wedi eu cofrestru gan y cyrff proffesiynol perthnasol;*
- b. *yn mynnu bod yr holl weithwyr proffesiynol a gyflogir yn cydymffurfio â'u codau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad; ac*
- c. *mynd i'r afael pan fo angen â grwpiau lleiafrifol a dangynrychiolir.*

S21.1. Asesodd y BILL ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S21.2. Roedd y BILL yn gallu dangos bod camau yn cael eu cymryd i roi sylw i'r safon hon, gan gynnwys:

- Mabwysiadu Polisi Recriwtio a Dethol
- Gweithredu polisiau Cydraddoldeb a pholisiau ar HIV a Gwahaniaethu ar sail Hil, Rhyw ac Oedran
- Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal
- Polisi a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â datgeliad o gefndir troseddol
- Cod Ymddygiad ac Atebolrwydd ar gyfer aelodau o Fwrdd y BILL
- Gweithdrefnau gwirio cyn-cyflogi
- Gwiriadau cofrestru blynyddol a chyn-cyflogi gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB)
- Mynnu cael dau eirida
- System werthuso

- Goruchwyllo clinigol.

S21.3. Y dyddiad ar Bolisi Recriwtio a Dethol y BILI yw 2004, ac y mae gofyn ei ddiweddarau. Mae'r disgrifiadau swyddi yn datgan bod rhaid i'r cyflogeion y mae'n ofynnol iddynt gofrestru gyda chorff proffesiynol gydymffurfio â'u codau ymddygiad ac â gofynion eraill eu cofrestrriad proffesiynol. Fodd bynnag, ni sefydlwyd unrhyw broses barhaus ar gyfer monitro cofrestrriadau proffesiynol Nyrsys, Meddygon, Deintyddion, Optometryddion a Fferyllwyr. Ystyriwn, felly, mai **Datblygol** yw'r BILI ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

Safon 22

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff:

- yn cael eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;*
- yn cymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac*
- cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.*

S22.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S22.2. Roedd y BILI yn gallu dangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i ymgynraedd at y safon hon, a bod y camau hynny yn cynnwys:

- Sesiynau Cinio a Dysgu
- Polisi a gweithdrefnau Recriwtio a Dethol
- Polisi Secondiadau
- Llawlyfr Sefydlu Staff.

S22.3. Roeddem yn gallu cadarnhau asesiad y BILI o **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Er ei fod yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau recriwtio a dethol, mae'r BILI yn cydnabod bod angen hyfforddi rheolwyr yn y gweithdrefnau hynny er mwyn sicrhau y cynhelir yr arferion gorau ledled y

sefydliad. Cyflwynir pecyn deunyddiau sefydlu i bob cyflogai newydd, ond mae'r BILI yn cydnabod bod nifer y dalennau o'r pecynnau a lofnodir ac a ddychwelir gan y cyflogeion yn isel, a bod rhaid sefydlu prosesau i wella'r sefyllfa. Fel y mae'r BILI ei hunan yn nodi, mae angen gwneud dadansoddiad o'r anghenion hyfforddi, er mwyn canfod pa mor effeithiol a safonol yw'r hyfforddiant. Yn ychwanegol, ni chwblheir gwerthusiadau blynyddol yn gyson ledled y BILI.

S22.4. Roedd y gwiriadau a wnaed gennym yn ystod ein hymweliad â'r safle yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi ei wirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Safon 23

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael cymorth gan:

- a. *prosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi unrhyw bryderon, yn gyfrinachol a heb beryglu eu safle, ynghylch unrhyw agwedd ar gyflwyno gwasanaeth, triniaeth neu reolaeth; ac*
- b. *rhaglenni datblygu sefydliadol a phersonol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff*

S23.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S23.2. Mae'r BILI wedi sefydlu nifer o bolisiau, gweithdrefnau a fforymau i gefnogi aelodau o'r staff sy'n codi pryderon, gan gynnwys Polisi Chwythu'r Chwiban, Polisi Achwyniadau, Fforwm Iechyd a Lles y Staff, a Pholisi Gwrth-dwyll. Dylid ystyried gwerthuso pa mor effeithiol yw'r dulliau hyn o gynorthwyo staff i fynegi pryderon.

S23.3. Sefydlodd y BILI nifer o fentrau sy'n cefnogi'r staff trwy gyfrwng rhaglenni datblygu sefydliadol a phersonol. Cynhelir sesiynau cinio a dysgu misol, sy'n rhoi cyfle i draddodi cyflwyniadau a chyfarwyddiadau ynglŷn â materion cyfredol. Gellir cynnal trafodaethau ffurfiol ynghylch meysydd gwaith allweddol ac eitemau agenda sefydlog yn y cyfarfodydd cyfarwyddiaeth. Mae'r cyfarfodydd unigol â rheolwyr llinell, sesiynau datblygu'r Bwrdd, a'r

cyswllt â'r staff yn y Fforwm Iechyd a Lles yn rhoi cyfle i'r staff ymgysylltu a datblygu. Rydym felly yn cytuno ag asesiad y BILI o **Ddatblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr, ond ystyriwn mai **Datblygol** yw'r BILI ar y lefel Gorfforaethol hefyd oherwydd diffyg tystiolaeth o fonitro gan y Bwrdd.

Safon 24

Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

- a. fod gweithlu sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ac sy'n adlewyrchu'r gymuned yn gyffredinol; ac*
- b. sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.*

S24.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a **Datblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S24.2. Mae'r BILI yn aelod o'r grwpiau a'r fforymau canlynol:

- Fforwm Gweledigaeth y Brifddinas Falch, sydd wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer Dinas Caerdydd
- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Y Gynghair Iechyd.

Bu'r BILI yn cydweithio â Chyngor Caerdydd a'r Sector Gwirfoddol i ddatblygu compact teiran â'r sector.

S24.3. Mae'r BILI yn cydweithio â Chyngor Caerdydd i gomisiynu gwasanaethau ar y cyd, gan gynnwys Timau Troseddu Ieuencid, Cyd-storfeidd Cyfarpar, Cynllun Ailalluogi Iechyd Meddwl a Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol Integredig, ac y mae'n aelod o Fwrdd Partneriaeth Anabledd Dysgu De-ddwyrain Cymru. Mae'n cefnogi'r Rhaglen Cleifion Arbenigol, sydd bellach wedi ei gwerthuso, ac y dangoswyd bod ei dylanwad yn arwyddocaol

o ran newid ymddygiad a chymell unigolion i gymryd rhagor o gyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain. Bu'r BILL yn ymwneud â gwella'r Broses Asesu Unedig. Y BILL sy'n cynrychioli'r sector iechyd ar gorff llywodraethu'r Ganolfan Plant integredig gyntaf yng Nghaerdydd, sy'n darparu gwasanaethau amlasiantaethol i gefnogi teuluoedd a chyflwyno addysg a chwarae i blant yn eu blynyddoedd cynnar. Rydym yn cytuno ag asesiad y BILL o **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol ac o **Ddatblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ar gyfer y safon hon, oherwydd bod digonedd o dystiolaeth o gydweithio ac o gomisiynu gwasanaethau ar y cyd.

Safon 25

Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

S25.1. Asesodd y BILL ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S25.2 Nid yw'r BILL wedi sefydlu strategaeth Rheolaeth a Thechnoleg Gwybodaeth (RhaThG), ac ni chyflwynwyd dystiolaeth bod mecanweithiau ganddo i sicrhau bod y systemau RhaThG yn effeithiol ac integredig. Er bod ganddo gyfres o bolisiau RhaThG, nid yw'r rhain yn darparu dull trosfwaol ac chyfannol o integreiddio'r systemau gwybodaeth. Gwan hefyd yw prosesau'r BILL ar gyfer gwirio cysondeb a chyfanrwydd yr wybodaeth. Yn ein barn ni, felly, **Ymatebol** yw'r BILL ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon.

Safon 26

Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau effeithiol ar gyfer rheoli cofnodion, sy'n sicrhau:

- a. *bod y sefydliad, o'r foment y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu, yn diweddarau'r wybodaeth i ateb y diben gwreiddiol, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan na fo'i hangen mwyach arnynt; ac*
- b. *bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.*

S26.1. Asesodd y BILL ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefel Gorfforaethol a'r lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S26.2. Roedd y BILL yn gallu dangos bod camau wedi eu cymryd i roi sylw i'r safon hon, gan gynnwys:

- Gweithredu Strategaeth a Pholisi Rheoli Cofnodion
- Polisi Archifo Cyffredinol
- Cynllun Gweithredu System Ffeilio Ganoledig 2006-07
- Taflen Wybodaeth i'r Staff ar Greu a Rheoli Cofnodion.

S26.3. Sefydlwyd strategaethau, polisiau a gweithdrefnau i sicrhau rheolaeth effeithiol ar gofnodion yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Mae'r Polisi Rheoli Cofnodion yn esbonio'r egwyddorion arweiniol a ddilynir gan y BILL ar gyfer creu, rheoli, dosbarthu, olrhain a chadw a gwaredu yr holl ffeiliau electronig a ffeiliau papur a ddelir gan y BILL. Fodd bynnag, ni ddarparodd y BILL dystiolaeth o unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i archwiliadau diweddar.

S26.4. Yn ychwanegol, ni ddarparwyd proses monitro ar gyfer Rheoli Cofnodion, na thystiolaeth o hyfforddiant mewn perthynas â Rheoli Cofnodion. Ni allwn gytuno, felly, ag asesiad y BILL o **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol, ac ystyriwn mai **Datblygol** yw'r BILL ar y lefelau hyn, ac mai **Datblygol** yw'r BILL hefyd ar lefel Profiad y Defnyddiwr

Safon 27

Mae trefniadau llywodraethu ar sail arferion da wedi eu sefydlu, sydd:

- a. yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;*
- b. yn sicrhau proses gadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, at atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
- c. yn mynd ati i helpu'r holl staff i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored ac i ddefnyddio adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.*
- ch. yn mynd ati'n systematig i gynnal asesiadau risg a rheoli risg; a*
- d. yn cael ei hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*

S27.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S27.2. Cadarnhaodd y BILI bod y canlynol wedi eu sefydlu:

- Pwyllgor Llywodraethu Clinigol ac Ansawdd
- Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a pholisïau cysylltiedig
- Trefniadau archwilio mewnol ac allanol
- Adroddiadau ariannol
- Cynllun Busnes
- Llawlyfr Llywodraethu Corfforaethol.

S27.3. Mae'r BILI yn cydnabod bod angen adolygu'r wybodaeth ariannol a'r wybodaeth am berfformiad a gyflwynir i'r Bwrdd, er mwyn cael sicrwydd bod yr wybodaeth yn berthnasol a phriodol. Roedd BILI Caerdydd yn un o dri a ddewiswyd ar gyfer adolygiadau rhagbrofol y 'Prosiect Llywodraethu Iechyd' gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd. Mae'r adroddiad ar y prosiect hwnnw, a baratowyd ym mis Mai, wedi darparu sicrwydd ychwanegol a chymorth i'r broses o adolygu a arweinir gan y Cadeirydd, mewn perthynas â'r Bwrdd a'r strwythur o Bwyllgorau. Mae'r BILI wedi cydnabod yr angen i sicrhau bod yr holl staff yn deall yn eglur sut i nodi ac i adrodd am risgiau a sut i weithredu'n briodol yn eu cylch.

S27.4. Yn ychwanegol, dylai'r BILI gymryd camau rhagweithiol i integreiddio llywodraethu clinigol a chorfforaethol ar draws y sefydliad. Rhaid mynd ati i ddadansoddi'r dulliau a ddefnyddir i hyfforddi a rhannu gwybodaeth, er mwyn cael sicrwydd ynglŷn ag effeithiolrwydd ac ansawdd y dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd. Rhaid cael eglurder ynglŷn â defnyddio'r gofrestr risgiau, fel y mae'r BILI ei hunan wedi nodi. Ystyriwn, felly, mai **Datblygol** yw'r BILI ar bob lefel o'r safon hon.

Safon 28

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn sicrhau bod gwaith pob tîm a pob gwasanaeth clinigol yn dilyn egwyddorion llywodraethu clinigol;*
- b. *yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac*
- c. *yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.*

S28.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ymarferol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/ Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S28.2. Nid yw'n ymddangos bod y BILI eto wedi sefydlu Strategaeth Llywodraethu Clinigol nac ychwaith Rhaglen Effeithiolrwydd Clinigol.

S28.3. Mae'r Bwrdd yn gweithredu i fynd i'r afael â'r materion allweddol trwy ddatblygu cynllun strategol, ac y mae systemau monitro wedi eu sefydlu. Nid oedd yn amlwg, fodd bynnag, pa gamau a gymerwyd a pha welliannau a wnaed. Mae tystiolaeth bod rhai o'r staff eisoes yn ymwneud â llywodraethu clinigol. Fodd bynnag, mae angen datblygu systemau a fydd yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu yn gyson, ledled y sefydliad. Dylai'r gweithredoedd a nodir yn y Cynllun Gwella Safonau fod o gymorth ar gyfer cyflawni hynny. Rydym o'r farn, felly, bod y BILI yn **Ymatebol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ddatblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr

4.4. Iechyd y Cyhoedd

Safon 29

Mae cyrff gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned a wasanaethir, ac yn lleihau anghydraddoldeb iechyd:

- a. *trwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; ac*
- b. *trwy sicrhau bod eu polisiau a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chynghor cadarn ar iechyd y cyhoedd.*

S29.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Arweiniol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol.

S29.2. Roedd y BILI yn gallu dangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i ymgynghori at y safon hon, a bod y camau hynny yn cynnwys:

- Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Cynllun Strategol a Chynllun Gweithredu gan y Tîm Lleol Iechyd y Cyhoedd
- Cynllun Darparu Iechyd Caerdydd a Phobl Ifanc (2006-08)
- Memorandwm Dealltwriaeth GICC
- Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda
- Datganiad Sefyllfa ar y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol.

S29.3. Roeddem yn gallu cadarnhau bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol. Datblygwyd y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles wedi ei datblygu yn dilyn ymgysylltu cymunedol a gweithio mewn partneriaeth ar y lefel strategol. Bu grwpiau ymgynghorol, a oedd yn cwmpasu amrywiaeth o fuddiannau cymunedol a grwpiau cleifion, yn cynghori ar agweddau allweddol ar y modd y darperir y gwasanaethau. Sefydlwyd amrediad o bartneriaethau parhaol a grwpiau cynllunio sydd â chynrychiolwyr cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn aelodau

ohonynt. Mae'r rhain yn goleuo'r broses o ddatblygu ac yn helpu i yrru ymlaen â'r gweithredu.

S29.4. Darparwyd cynlluniau gweithredu, ond ni chyflenwyd tystiolaeth werthuso a gwelliannau a ddigwyddodd yn ddiweddar. Ni ddarparwyd tystiolaeth o'r modd y defnyddir y cyngor ynglŷn ag iechyd y cyhoedd na sut, ar sail cyngor o'r fath, y gwneir penderfyniadau neu y comisiynir gwasanaethau. Ni allwn gytuno, felly, ag asesiad y BILI o Arweiniol ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr, ac ystyriwn mai **Datblygol** yn unig yw'r BILI ar y lefelau hyn.

Safon 30

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydau a hybu iechyd sy'n cynnwys staff, ac sy'n bodloni gofynion y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydau; ac*
- b. *yn ystyried yr holl bolisiau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth datblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.*

S30.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S30.2. Roedd y BILI yn gallu dangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i ymgynhyrdd at y safon hon, a bod y camau hynny yn cynnwys:

- Cynllun Strategol a Chynllun Gweithredu gan y Tîm Lleol Iechyd y Cyhoedd
- Strategaeth Bwyd ac Iechyd
- Adroddiad Blynyddol Caerdydd Ddi-fwg
- Heart Link.

S30.3 Roeddem yn gallu cadarnhau asesiad y BILI o **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y BILI yn dangos bod y Bwrdd yn rhoi sylw i

faterion atal clefydau a hybu iechyd ac yn gweithio ar ddull o fynd i'r afael â'r problemau iechyd penodol a nodir. Mae Heart Link, y Strategaeth Bwyd ac Iechyd, Adroddiad Troednoeth a Chaerdydd Ddi-fwg i gyd yn enghreifftiau da o'r modd y mae'r BILI yn bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydau.

Safon 31

Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd os bydd achosion sylweddol o glefyd heintus yn digwydd, neu argyfwng iechyd arall;*
- b. *yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldebau iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;*
- c. *yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd; ac*
- ch. *yn annog ac yn helpu unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.*

S31.1. Gweler yr ymateb i Safon 18.

Safon 32

Mae cyrff gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y marc ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.

S32.1. Asesodd y BILI ei hunan yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymarferol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol.

S32.2. Roedd y BILI yn gallu dangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i ymgynhyrdd at y safon hon, a bod y camau hynny yn cynnwys:

- Strategaeth, polisiau ac adroddiadau Safonau Iechyd Corfforaethol (SIC).
- Grŵp Llywio SIC.
- CLG Iechyd Galwedigaethol gyda phractis ymarfer cyffredinol.

- Holiadur 'Think Fit'.
- Fforwm Iechyd a Lles y Staff.

S32.3. Dangosodd gwerthusiad o'r dystiolaeth a ddarparwyd mai nod y Grŵp llywio SIC yw sicrhau y cynhelir y lefel Efydd bresennol. Mae'r SIC yn eitem ar agenda Fforwm Iechyd a Lles y Staff.

S32.4. Yng Nghyfarfodydd Gwirio Cysondeb AGIC, penderfynwyd y byddai'r sgorio ar gyfer y safon hon yn adlewyrchu yn uniongyrchol y dyfarniadau a gâi'r sefydliadau ar gyfer y SIC. Byddai Aur ac Arian yn gyfwerth ag Ymarferol, ac Efydd yn hafal i Ddatblygol. Gan mai'r dyfarniad SIC Efydd a enillodd y BILI, rydym wedi asesu'r BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Rhoddir crynodeb yn Atodiad 2 o'r lefelau aeddfedrwydd ar gyfer pob un o'r 32 safon, fel y'u haseswyd gan BILI Caerdydd yn ei hunanasesiad, a hefyd gan AGIC ar ôl profi a gwerthuso.

5. Y Camau Nesaf

5.1. Mae'n ofynnol bod BILI Caerdydd yn cyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007. Cytunir ar y cynllun hwn gyda Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fydd yn monitro'r modd y'i gweithredu, yn rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad a sefydlwyd ar gyfer GIG Cymru. Rhoddir y cynllun ar gael ar wefan y BILI.

5.2. Dros y misoedd nesaf, bydd AGIC yn cydweithio â rhanddeiliaid i gywreinio a gwella'r offeryn asesu ar gyfer y dyfodol, ac i alinio'r broses hunanasesu Safonau Gofal Iechyd â'r gylchred ariannol flynyddol.

5.3. Cyhoeddir adroddiad ar Gymru gyfan yn ystod Tachwedd 2007, a fydd yn cyfuno canfyddiadau o'r adroddiadau unigol i roi trosolwg ar y sefyllfa ledled Cymru. Bydd hynny'n tanlinellu'r themâu a'r meysydd risg allweddol a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i'r broses asesu Safonau Gofal Iechyd.

Atodiad 1

	Ymwybodol	Ymatebol	Datblygol	Ymarferol	Arweiniol
Corfforaethol	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion i fynd i'r afael â hwy ond ni allant ddangos penderfyniadau/ camau i fynd i'r afael â hwy.	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol ac wedi nodi dewisiadau sydd wedi'u blaenoriaethu, er nad oes tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol sydd â thystiolaeth o arferion da ledled y sefydliad.	Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ledled y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy roi arferion arloesol ar waith a rennir ledled y sefydliad a thu hwnt gydag eraill, gan alluogi cynaliadwyedd hirdymor i gael ei wireddu.
Gweithredol	Mae ymwybyddiaeth o'r materion i fynd i'r afael â hwy, ond ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau i fynd i'r afael â hwy.	Mae ymwybyddiaeth o'r materion allweddol i fynd i'r afael â hwy a nodwyd amrywiaeth o ddewisiadau er mwyn mynd i'r afael â hwy	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion allweddol gyda thystiolaeth o weithredu ymarferol ledled y sefydliad.	Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda'n cael eu rhoi ar waith ledled y sefydliad sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o werthuso a meincnodi sy'n arwain at welliant parhaus.	Mae tystiolaeth o arferion arloesol, a rennir ledled y sefydliad a thu hwnt gydag eraill. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach i sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.
Profiad y Defnyddiwr	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol wael ac ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Nid yw profiad yr unigolyn/unigolion yn dda yn gyffredinol er y datblygwyd dulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson ledled y sefydliad hyd yn hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol dda ym mhob maes.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn rhagorol yn gyffredinol a gall y gwasanaeth ddangos tystiolaeth eglur o arferion da, y gellir eu rhannu.

Crynodeb o'r Lefelau Aeddfedrwydd ar gyfer y 32 Safon

Allwedd

A	Arweiniol
B	Ymarferol
C	Datblygol
Ch	Ymatebol
D	Ymwybodol

Safon 1

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↓	Ch
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↔	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↓	Ch

Safon 2

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↔	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↔	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↓	Ch

Safon 3

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↓	Ch
Profiad y Defnyddiwr	Ch	↔	Ch

Safon 4

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↔	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	Ch	↔	Ch
Profiad y Defnyddiwr	C	↓	Ch

Safon 5

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Ch	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	C	↓	D

Safon 6

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↓	Ch
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↓	Ch
Profiad y Defnyddiwr	C	↓	Ch

Safon 7

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↔	C
Profiad y Defnyddiwr	B	↔	B

Safon 8

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↓	Ch
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↓	Ch
Profiad y Defnyddiwr	C	↓	Ch

Safon 9

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↓	Ch
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	Ch	↔	Ch
Profiad y Defnyddiwr	Ch	↔	Ch

Safon 10

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↔	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↔	C

Safon 11

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↓	Ch
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↓	Ch
Profiad y Defnyddiwr	C	↓	Ch

Safon 12

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Ch	↔	Ch
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↓	Ch
Profiad y Defnyddiwr	C	↓	Ch

Safon 13

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↔	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↓	Ch

Safon 14

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↔	B
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	Ch
Profiad y Defnyddiwr	B	↓	Ch

Safon 15

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↓	Ch
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↓	Ch
Profiad y Defnyddiwr	B	↓	Ch

Safon 16

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↓	Ch
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	Ch
Profiad y Defnyddiwr	C	↓	Ch

Safon 17

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	Ch
Profiad y Defnyddiwr	B	↓	Ch

Safon 18

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↔	C

Safon 19

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↔	B
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↔	B
Profiad y Defnyddiwr	C	↔	C

Safon 20

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↓	Ch
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↔	C
Profiad y Defnyddiwr	Ch	↔	Ch

Safon 21

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	B	↓	C

Safon 22

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↔	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↔	C
Profiad y Defnyddiwr	Ch	↔	Ch

Safon 23

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↔	C

Safon 24

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↔	B
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↔	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↔	C

Safon 25

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↓	Ch
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↓	Ch
Profiad y Defnyddiwr	Ch	↔	Ch

Safon 26

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↔	C

Safon 27

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↔	C

Safon 28

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	B	↓	Ch
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↔	C

Safon 29

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	A	↓	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↔	C
Profiad y Defnyddiwr	A	↓	C

Safon 30

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↔	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	C	↔	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↔	C



Safon 31

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	N/A		
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	N/A		
Profiad y Defnyddiwr	N/A		


Safon 32

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (lan/ lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	C	↔	C
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol	B	↓	C
Profiad y Defnyddiwr	C	↔	C


**Crynodeb o'r Aeddfedrwydd ar y Lefelau Corfforaethol,
Canlyniadau Gweithredol/ Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr**




**Sgoriau Aeddfedrwydd ar y Lefel Canlyniadau Gweithredol/
Clinigol**



Sgoriau Aeddfedrwydd ar Lefel Profiad y Defnyddiwr



Cytuno/ Anghytuno â Sgôr y BILI



Geirfa Allweddol

Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru – sy'n cynghori'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar reolaeth strategol meddyginiaethau a phresgripsiynu.

cerdyn sgorio cytbwys - system reoli sy'n darparu model y gall sefydliad ei ddefnyddio i egluro ei weledigaeth a'i strategaeth a'u trosi yn weithredoedd. Mae'n cefnogi gwelliant parhaus ym mherfformiad y sefydliad

Gwarcheidwad Caldicott – uwch glinigwr ym mhob sefydliad GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddiad Caldicott, a oedd yn adolygu'r modd y diogelir ac y defnyddir gwybodaeth am gleifion.

llwybr gofal – cyfres ddiffiniedig o gamau triniaeth a gofal, sydd wedi ei chynllunio i ddiwallu anghenion penodol claf unigol.

archwiliad clinigol – ymarferiad gan weithwyr proffesiynol iechyd i fesur a gwerthuso pa mor bell y maent yn bodloni'r safonau a osodwyd ar gyfer eu gwasanaeth.

llywodraethu clinigol – fframwaith atebolrwydd sy'n pennu bod sefydliadau GIG yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau yn barhaus ac am ddiogelu safonau gofal uchel.

rhwydweithiau clinigol – grŵp o wasanaethau sy'n cydweithio ar draws terfynau sefydliadau i ddarparu gwell gofal i gleifion.

canlyniad clinigol – effaith triniaeth o ran ei dylanwad ar iechyd neu les unigolyn.

Cyngor Iechyd Cymunedol (CIC) – cyrff di-elw o fewn cymunedau sy'n ymwneud â hybu iechyd, eiriolaeth a pholisi. Sefydlwyd y CICau ym 1992, er mwyn cryfhau'r rhan a chwaraeir gan gymunedau wrth ddiffinio polisiau gwladol a lleol sy'n effeithio ar argaeledd ac ansawdd gofal iechyd. Y CICau sy'n cynrychioli buddiant y cyhoedd yn y GIG, ac y mae hawl statudol ganddynt i fynnu cael gwneud sylwadau ar unrhyw newidiadau ym maes iechyd o fewn eu hardal.

Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) – asiantaeth weithredol a sefydlwyd i helpu sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio diogel trwy wella'u mynediad at wybodaeth o gofnodion troseddol. Mae'r CRB yn helpu cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i adnabod ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer mathau penodol o waith, yn enwedig cyswllt â phlant neu aelodau eraill o'r gymdeithas sy'n agored i niwed.

diogelu data – gofyniad ar gyrff cyhoeddus ac eraill i weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Ymdrinnir â chyfrifoldebau o'r fath yn Neddff Diogelu Data 1998 ac yn Neddff Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, gyda'r nod o ddiogelu data a gedwir am unigolion.

Cynllun Oes – mae'n nodi gweledigaeth o ddyfodol y gwasanaethau iechyd yng Nghymru, ynghyd â strategaeth 10 mlynedd ar gyfer ei gwireddu. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, pob un i barhau am oddeutu tair blynedd, sef: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgynllunio Gofal Iechyd; Fframwaith 2 (2008-2011) Safonau Uwch; a Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau o Safon Fyd-eang.

Safonau Gofal Iechyd – fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd a gyhoeddwyd ym Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi ymdrechion y GIG a'i sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon o safon uchel ar draws yr holl leoliadau gofal iechyd.

rheoli heintiau – cyfres o weithdrefnau i atal heintiau rhag lledaenu a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer di-haint, etc.

Byrddau Iechyd Lleol (BILiau) – cyrff statudol sy'n gyfrifol am weithredu strategaethau i wella iechyd y boblogaeth leol, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol, a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) – cyrff hunanlywodraethol o fewn y GIG sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r Ymddiriedolaethau'n cyflogi amrediad llawn o weithwyr proffesiynol gofal iechyd, gan gynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffisiotherapyddion, etc. Yr ymddiriedolaethau aciwt sy'n darparu gwasanaethau meddygol a llawfeddygol, fel rheol mewn ysbytai, tra bo'r ymddiriedolaethau cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, fel rheol yn y gymuned, megis nyrsys ardal, ciropodyddion, etc. Mae ymddiriedolaethau cyfunedig yn darparu gwasanaethau cymunedol ac aciwt o dan yr un tîm rheoli.

Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) – awdurdod iechyd arbennig sy'n darparu canllawiau i'r GIG ac i gleifion ar feddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) – awdurdod iechyd arbennig a grëwyd yng Ngorffennaf 2001 i gydgyssylltu ymdrechion y wlad gyfan i gofnodi ac, yn bwysicach, i ddysgu oddi wrth y camgymeriadau a'r problemau sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion.

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (GICCC) - mae'n cyflwyno amrediad llawn o wasanaethau iechyd y cyhoedd, gyda'r nod o wella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldebau iechyd; amddiffyn rhag afiechydon a pheryglon iechyd presennol a newydd, a rhai a all ymddangos; a chyfrannu at wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) – canllawiau i'r gwasanaeth iechyd ar sut i reoli a thrin mathau penodol o afiechydon a salwch.

Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd (PPI) – strategaeth a gynlluniwyd er mwyn sicrhau bod barn a safbwyntiau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Rhaglen Arweiniad Clinigol Coleg Brenhinol y Nyrsys (RCN) – rhaglen sy'n sicrhau y neilltuir amser er mwyn caniatáu i nyrsys arsylwi ar y gofal a'r gwasanaethau a ddarperir, a chyfweld cleifion ynglŷn â'u gofal. Y nod yw galluogi nyrsys i ddatblygu a chywreinio'u galluoedd arweinyddol, gwella'u sgiliau tîm a threfniadol a chanolbwyntio ar anghenion y cleifion.

Datganiad Rheolaeth Fewnol – datganiad ynghylch trefniadau cyffredinol y sefydliad GIG ar gyfer cael sicrwydd y rheolir y prif risgiau o fewn y sefydliad yn effeithiol.

Bwrdd yr Ymddiriedolaeth – grŵp o bobl sydd, trwy statud, yn gyfrifol am y penderfyniadau strategol a'r penderfyniadau polisi mawr ym mhob Ymddiriedolaeth GIG. Mae Bwrdd nodweddiadol yn cynnwys cadeirydd lleyg, pum aelod arall lleyg, Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwyr Gweithredol.

Cronfa Risg Cymru (WRP) – cynllun hunan-sicrhau cilyddol ar gyfer yr holl gyrff iechyd yng Nghymru. Mae'r Gronfa hefyd yn cefnogi diogelwch y cleifion a'r staff, trwy annog a chefnogi perfformiad da wrth reoli ac asesu risgiau, trwy fesur gyferbyn â safonau penodedig.